

Dydd Llun 27^{ain} Chwefror 2017

Annwyl aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam a'r Tîm Cymorth

Diolch am roi'r cyfle i mi ddarparu adborth ar y fersiwn ddrafft o'ch Asesiad Llesiant Lleol a anfonwyd i'r swyddfa yn Ionawr 2017.

Y peth cyntaf yr wyf am ei wneud yw gwneud yn glir fy mod i'n deall yn llwyr yr heriau yr ydych wedi eu hwynebu wrth ddatblygu'r asesiad y tro hwn, ac rwy'n llongyfarch eich tîm ar eu gwaith caled a'u hymdrechion.

Fy mhrif ffocws wrth ddarparu'r adborth hwn yw eich helpu i ystyried i ba raddau y bydd y gwaith a wnaed gennych hyd yn hyn yn eich helpu i bennu eich cydamcanion ac ymgymryd â chynllunio llesiant. I mi, y Byrddau Gwasanaethau Lleol sy'n rhoi un o'r cyfleoedd mwyaf i'r sector cyhoeddus yng Nghymru newid y ffordd yr ydym yn gwneud pethau yng Nghymru a llunio penderfyniadau ar y cyd a darparu gwasanaethau a fydd o fudd i genedlaethau'r dyfodol.

Mae eich asesiad chi yn rhan allweddol o hyn, ac er fy mod yn deall na fydd, o bosibl, yn ddarlun llawn ar yr adeg y byddwch yn ei gyhoeddi, y mae'n bwysig ei fod yn rhoi darlun clir a deallus o lesiant Wrecsam a llesiant eich cymunedau, sy'n berthnasol yn awr ac i'r dyfodol. **Dylai eich asesiad eich galluogi i nodi'n glir yr heriau allweddol ar gyfer eich ardal a'ch cymunedau, gan ddatblygu cydamcanion sy'n mynd i'r afael â'r heriau hyn.**

Atodaf ddogfen sy'n rhoi adborth manwl ar eich asesiad drafft, a'r hyn y dylech ystyried adeiladu arno yn y tymor byr wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant, ac yn nhermau asesu llesiant yn y dyfodol.

Yn ystod 2017-18, un o'ch tasgau allweddol fydd datblygu eich cydamcanion llesiant fel rhan o'ch Cynllun Llesiant. Mae'r ddeddfwriaeth yn gofyn eich bod yn ceisio cyngor gennyf ar sut mae cymryd camau i gyflawni eich amcanion yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy (pum dull o weithio).

Nodaf isod rai o'r pethau y byddaf yn chwilio amdanynt wrth i'm swyddfa barhau i weithio gyda chi. Yn fy marn i, mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) sydd wedi dangos eu bod eisoes yn rhoi sylw i'r pum dull o weithio mewn sefyllfa dda i ddatblygu amcanion a Chynlluniau Llesiant, a fydd yn fanteisiol i bob sefydliad cysylltiedig o ran mwyafu eu cyfraniad cyfunol i'r nodau a mynd i'r afael â heriau sy'n pontio'r cenedlaethau.

Roedd y dull a ddefnyddiwyd gennych i saernïo eich asesiad, gan bennu 41 o nodau llesiant, wedi creu argraff arnaf, ac mae'n sylfaen ardderchog ar gyfer deall y berthynas rhwng eich gweithredu lleol a'r saith nod llesiant cenedlaethol. Bydd eich dull yn cyfrannu at ystyriaeth ehangach o'r **integreiddio** rhwng llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Er enghraifft, mae cyfle i chi archwilio'r berthynas rhwng polisi a heriau o ran cydlyniant cymunedol, arwahanrwydd a iechyd meddwl mewn rhannau penodol o Wrecsam, datblygu economaidd a pherygl llifogydd, a'r gydberthynas rhwng trafnidiaeth, technoleg newydd a chyfleoedd gwaith.

Roeddwn yn falch o weld y dechrau da a wnaethoch â'ch dull o **gynnwys pobl a chymunedau** wrth ddatblygu eich asesiad, trwy gyfrwng *Y Wrecsam a Garem*, a'r ystod o randdeiliaid rydych wedi cysylltu â nhw ar draws y sectorau. Roedd y modd yr adlewyrchwyd y deunydd ansoddol a gasglwyd gennych drwy'r asesiad cyfan wedi creu argraff arnaf. Bydd yn bwysig i chi adeiladu ar hyn wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant, gan sicrhau eich bod yn parhau i roi cyfleoedd i ystod eang o randdeiliaid a dinasyddion ymgyfrannu a dylanwadu ar ddatblygiad eich amcanion, a medru dangos bod eu mewnbwn yn cael effaith ar yr hyn a wnewch.

Roedd yn dda gweld bod peth o'ch ymgysylltu yn canolbwyntio ar yr hyn y mae pobl am i Wrecsam fod yn y dyfodol. Wrth i chi ddatblygu'r asesiad a symud tuag at gynllunio llesiant, hoffwn eich gweld yn rhoi mwy o sylw i effaith bosibl tueddiadau tymor hir ar Wrecsam o dan bob un o'ch 41 nod. Dylai hyn gynnwys mwy o ymwybyddiaeth o faterion allweddol i lesiant Wrecsam yn y **tymor hir** drwy ystyried, yn arbennig, yr heriau a ddaw yn eu sgîl a pha leoliadau, cymunedau a phobl benodol yr effeithir fwyaf arnynt, fwy na thebyg, neu sydd fwyaf agored iddynt.

Un o elfennau allweddol y ddeddfwriaeth yw'r ffocws ar **atal problemau** rhag digwydd yn hytrach na gwneud dim mwy nag ymateb iddynt. Er bod sôn am hyn yng nghyd-destun ymyrraeth yn y blynyddoedd cynnar a'r amgylchedd, byddai'r asesiad yn elwa o ddisgrifio sut mae'r agenda ataliol yn hollbwysig i gynllunio llesiant a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae hwn yn faes lle byddwn i'n eich annog i roi ystyriaeth fanwl i'r hyn y mae'r data a'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthyh, er mwyn gwneud synnwyr o'r heriau allweddol a nodwyd gennych.

Ac mae **cydweithio** yn allweddol i hyn oll - mae cyfle gennych bellach i symud eich gwaith partneriaeth i lefel newydd, gan gydweithio drwy gyfrwng adnoddau a darganfod dulliau newydd o ddelio â hen broblemau. Dylai eich asesiad eich helpu i nodi'r cyfleoedd mwyaf ffrwythlon ar gyfer gwneud hyn.

Mae eich tîm cymorth wedi gweithio'n galed i ddatblygu'r asesiad hwn a bydd ar y bobl sy'n cynorthwyo eich cynlluniau llesiant angen eich ymrwymiad a'ch cefnogaeth lwyr. Nodweddion allweddol yn hyn o

beth, fwy na thebyg, fydd yr arweinyddiaeth a ddangosir gennych a'ch parodrwydd i roi lle a chaniatâd i bobl archwilio dulliau newydd o fynd i'r afael â hen broblemau. Yn ei hanfod, mae'r newid diwylliant hwn yn crynhoi natur Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Gan ragweld y bydd gofyn i mi ddarparu cyngor ar y modd y dylech gymryd camau i gyflawni eich cydamcanion, hoffwn weld manylion pellach ynghylch sut byddwch chi'n defnyddio eich asesiad wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant. Byddwn yn ddiolchgar os gallech roi gwybod i'm swyddfa sut yr ydych wedi ymateb i'n hadborth. Gan gadw hyn mewn golwg, bydd hefyd yn bwysig i chi roi fy adborth i i'r pwyllgor craffu sy'n arwain y gwaith o graffu ar waith y BGC. Nodwyd bod angen ymagwedd fwy adeiladol tuag at graffu a bod hynny'n rhan bwysig o fwyafu'r gweithredu ar y cyd ar lefel leol.

Rwy'n gobeithio bod ein hadborth yn glir ac yn ddefnyddiol yn y cyfnod hwn. Fodd bynnag, mae'n rhaid i mi ailadrodd nad wyf yn gweld datblygu eich asesiad fel digwyddiad unwaith yn unig. Wrth symud ymlaen, byddaf yn rhoi cyfleoedd i'r BGCau rannu gwersi ac arfer gorau. Gobeithio y byddwch chithau'n ymwneud â hynny, er mwyn darparu'r llwyfan gorau i chi gyflawni eich ymrwymadau parhaus o dan y Ddeddf.

Dymuniadau gorau



Sophie Howe
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Adborth gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar Asesiad o Lesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad canlynol yn rhoi adborth Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam ar y drafft ymgynghori o Asesiad Llesiant Lleol Wrecsam a gyhoeddwyd yn Ionawr 2017. Mae'r adborth hwn yn seiliedig ar yr adolygiad a wnaed gan ein tîm prosiect¹ o'r dogfennau a'r trafodaethau allweddol canlynol:

- *Asesiad Llesiant Wrecsam: Crynodeb*
- *Asesiad Wrecsam o Lesiant Lleol*
- trafodaeth rhwng y tîm prosiect ac aelodau o dîm y BGC ar 14^{eg} Chwefror

Bwriedir bod yr adborth hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio cyhoeddi'r asesiad yng ngwanwyn 2017 lle bydd hynny'n bosibl a chan gydnabod yr amserlenni sy'n bodoli, ond mae'n bwysicach ei fod yn llywio'r prosesau parhaus o ddatblygu eich asesiad a'ch cynlluniau llesiant.

Mae'r asesiad wedi cael ei adolygu gan y tîm prosiect gan ddefnyddio set o feini prawf a ddatblygwyd yn arbennig i ffocysu ar agweddau ar waith cynhyrchu, methodoleg a dadansoddi yr asesiad a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r meini prawf hyn yn ein galluogi i adolygu'r ystod eang o ymagweddau tuag at yr asesiad llesiant lleol a ddefnyddiwyd, ledled Cymru. Mae hyn hefyd wedi ein galluogi i ddarparu adborth pwrpasol i'r BGCau, gan amlygu cryfderau a meysydd y gellid eu gwella. Bydd yr ymagwedd gyson hon hefyd yn galluogi'r Comisiynydd i nodi materion allweddol ac amlygu cyfleoedd ar gyfer dysgu ar y cyd, ar lefel Cymru gyfan, ar gyfer yr ystod eang o gyrff sector cyhoeddus a chyrrff eraill sy'n ymwneud â chynllunio llesiant.

Rydym yn deall o'n sgwrs ffôn gyda thîm y BGC bod yr Asesiad Llesiant yn broses barhaus, a bod gwaith pellach yn cael ei wneud, ond mae'n bwysig nodi'r sylwadau canlynol a gweithredu arnynt wrth i'r asesiad llesiant gael ei ddatblygu a'i addasu ac wrth adeiladu arno i lywio cynllunio llesiant ar draws y BGC.

¹ Dr. Alan Netherwood, Netherwood Sustainable Futures, Dr. Andrew Flynn, Prifysgol Caerdydd a Dr. Mark Lang, Mark Lang Consulting

2. Nodau llesiant cenedlaethol

Un o'r materion rydym wedi ei ystyried yw pa mor effeithiol yr adlewyrchwyd y saith nod llesiant cenedlaethol yn yr asesiad, gan fod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gofyn bod BGCau yn dangos sut maent yn cynllunio i fwyafu eu cyfraniad i'r nodau. Mae'n bwysig bod cysylltiad clir rhwng y data mewn asesiadau, y dehongliad ohono a'n dealltwriaeth o bob agwedd ar lesiant yn ein cymunedau.

Deallwn y bydd BGCau yn datblygu gwahanol ddulliau o adlewyrchu llesiant; yn achos Wrecsam ar draws 41 o nodau llesiant, o dan 7 thema'r nodau cenedlaethol. Mae'r ymagwedd hon yn ganmoladwy ac yn un a fydd yn fanteisiol, fwy na thebyg, o ran datblygu eich dealltwriaeth o sut y gall y BGC fwyafu ei gyfraniad trwy gynllunio llesiant (gweler y sylwadau pellach ar Integreiddio ym mhwynt 9)

Roedd gweld bod y BGC wedi buddsoddi amser i archwilio sut mae pob un o'r 41 nod yn Wrecsam yn cysylltu â'r saith nod cenedlaethol yn gadarnhaol iawn. Mae'n dangos yn glir ymhle y gall gweithgareddau yn Wrecsam gyfrannu at nodau lluosog.

I adeiladu ar hyn, byddai'n ddefnyddiol petai'r asesiad yn disgrifio yn gyntaf sut cynhaliwyd yr archwiliad hwn ac, yn bwysicach, yn disgrifio sail resymegol pob cyfraniad - e.e. beth yw natur cyfraniad Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam at gydnerthedd neu beth yw cyfraniad anghenion tai at gydlyniant cymunedol? Sut mae'r rhain yn cyfrannu?

Cyfraniad ymhlyg sydd yma ar hyn o bryd a gellid ei wneud yn fwy amlwg. Byddai'r dogfennau'n elwa hefyd o adran ynghylch yr hyn y mae'r ymarferiad hwn yn ei ddweud wrth y BGC ynglŷn â ble mae cryfderau a gwendidau ganddo neu ymhle y gwelir diffyg llwyddiant i gyfrannu at y saith nod llesiant h.y. beth mae'r ymarferiad hwn yn ei ddweud wrth BGC Wrecsam?

Gellid gwella'r crynodeb a'r prif ddogfennau ag eglurhad cliriach ynghylch sut daeth y 44 o ddyheadau a themâu a ddeilliai o'r ymgynghoriad *Y Wrecsam a Garem* yn 41 nod llesiant. Ar hyn o bryd, mae llawer mwy o nodau economaidd a iechyd nag sydd yn yr adrannau eraill - gelid egluro'r rhesymeg y tu ôl i hyn.

Mae'r dull hwn o ddefnyddio ffrâm y nodau llesiant yn arwydd da bod y BGC wedi derbyn bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac mae'n sylfaen ardderchog ar gyfer deall y berthynas rhwng gweithredu lleol a'r nodau cenedlaethol.

3. Cynnwys data – ardal a lle

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gofyn bod asesiadau llesiant yn canolbwyntio ar yr ardal a'r 'lle' ac yn adlewyrchu'r amrywiaeth o gymunedau ledled eich ardal. Rydym wedi ystyried i ba raddau y mae cynnwys data eich asesiad yn gwneud hynny. Bu'n dda deall o'n sgwrs ffôn fod y cyfyngiadau amser a wynebai'r BGCau o ran llunio'r asesiad wedi dylanwadu ar i ba raddau y gellid cynnwys data lleol, a bod bwriad i adeiladu ar y gwaith hwn er mwyn cynnwys data ar lefel cymunedau unigol yn y dyfodol.

Mae'n gadarnhaol gweld data ar lefel Wrecsam gyfan, lle bydd hwnnw ar gael, yn cael ei ddefnyddio ar draws y 41 nod, yn enwedig yn nogfen y crynodeb. Mae'n rhoi dealltwriaeth eang i ni o'r mathau o heriau i lesiant. Mewn mannau, fodd bynnag, byddai'n fanteisiol dehongli mwy ar y data er mwyn deall *arwyddocâd* y mater i Wrecsam yn gyffredinol. Mae gwella ein dealltwriaeth o lesiant trwy ddehongli mwy effeithiol, a chyfleu arwyddocâd yr heriau i lesiant, yn ddwy thema y byddwn yn cyfeirio atynt yn nes ymlaen yn y ddogfen adborth hon. Mae'r Crynodeb yn cynnig ffocws llawer gwell ar Wrecsam (yn hytrach na ffocws cyffredinol ar faterion allweddol) a byddem yn awgrymu bod yr ymagwedd hon yn cael ei mabwysiadu wrth i'r asesiad ddatblygu.

Fodd bynnag, mae mwy o ffocws a dehongli lleol mewn mannau ac mae hyn yn rhoi darlun llawer cliriach o'r heriau i lesiant, er enghraifft, o ran asedau economaidd, Carchar y Berwyn, canol tref Wrecsam a'r cymunedau y mae amddifadedd yn effeithio arnynt (gan ddefnyddio data Ardal Gynnyrch Haen Is - LSOA) a llifogydd. Dylid datblygu'r ymagwedd hon ar draws nodau Wrecsam wrth i'r asesiad ddatblygu yn y misoedd nesaf.

Gellid gwella'r dadansoddiad trwy ffocysu mwy ar gymunedau unigol ledled ardal Wrecsam gan fod yr ymagwedd bresennol yn cynnig dealltwriaeth gyfyngedig o'r canlynol: llesiant mewn gwahanol ardaloedd a lleoedd; y gwahaniaethau mewn ardaloedd neu rhwng ardaloedd; anghydraddoldebau, neu faterion lleol sy'n arbennig o aciwt. Credwn y dylai asesiad llesiant gynnig dealltwriaeth o lesiant sy'n fwy lleol (a llai unffurf), a byddwn yn chwilio am dystiolaeth o hynny wrth i'r cynllunio llesiant symud ymlaen.

Hefyd, gellid gwella'r asesiad trwy gynnwys data ar seilwaith critigol o ran ynni, dŵr, trafnidiaeth a seilwaith arall. Dylai hyn gynnwys dehongli'r heriau a chyfaddawdau allweddol (gweler y sylwadau ar hyn ym mhwynt 7 isod). Mae'r math hwn o wybodaeth yn allweddol berthnasol i'r BGC, i ddarparu gwasanaethau ac i lesiant cymunedol yn y dyfodol.

4. Cynnwys data - anghenion gwasanaethau cyhoeddus

Credwn ei bod yn bwysig bod gennych ddarlun clir o wahanol anghenion pobl a chymunedau yn awr ac yn y dyfodol, a bod goblygiadau'r rhain yn cael eu deall. Rydym wedi ystyried i ba raddau y mae cynnwys data'r asesiad yn ffocysu ar anghenion gwasanaethau cyhoeddus, o fewn cymunedau ac ar gyfer grwpiau penodol o unigolion.

Un o flaenoriaethau fy swyddfa yw annog cyrff cyhoeddus a BGCau i sicrhau eu bod, yn y lle cyntaf, yn cynnwys pobl a chymunedau mewn ffyrdd sy'n rhoi mwy o ymwybyddiaeth iddynt o brofiadau bywyd pobl o gyrff cyhoeddus, ac yn ail, eu bod yn gweithredu ar yr ymwybyddiaeth hon pan fyddant yn gwneud penderfyniadau ac yn darparu gwasanaethau. Er enghraifft, mae'n gadarnhaol gweld sut mae'r ymgysylltu wedi cynnwys ffocws ar wasanaethau cyhoeddus trwy ymgynghoriad *Y Wrecsam a Garem* a chlywed sut mae'r Asesiad Poblogaeth wedi bwydo'r broses Asesu Llesiant.

Mae'n gadarnhaol gweld adran 11 ynghylch '*Barn y gymuned ar wasanaethau cyhoeddus*', gyda chwestiwn ynghylch i ba raddau y mae'r sector cyhoeddus yn arddangos y pum dull o weithio. Mae hyn yn gadarnhaol iawn, er bod lle i ddehongli rhagor. Beth mae'r wybodaeth yn ei ddweud wrthym am yr her sy'n wynebu'r BGC? Beth fydd yn digwydd i'r rhestr hon? Sut bydd y BGC yn ymateb? Byddai rhywfaint o gyd-destun a dadansoddiad yn fanteisiol.

Mae'r manylder a ddarparwyd o dan nifer o'r 41 nod yn ardderchog, mae "*Beth rydych wedi'i ddweud wrthym*" yn adnodd eithriadol o ddefnyddiol. Byddai'n ddefnyddiol iawn petai dogfennau'r asesiad yn cynnwys dadansoddiad o'r themâu i'r BGC sy'n codi o'r ymatebion hyn. A oes unrhyw themâu cyffredin yn codi o'r rhain i'r gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol yn Wrecsam neu i leoliadau penodol y gellir ymdrin â nhw drwy weithredu ar y cyd, neu drwy sefydliadau unigol? Unwaith eto, gellid gwella'r asesiad drwy ddweud at ba ddiben y defnyddir yr wybodaeth hon a sut bydd bylchau data yn cael eu llenwi.

5. Dadansoddiad meintiol ac ansoddol

Rydym yn cydnabod her cydbwysio data, sylwadau a thystiolaeth er mwyn dod i ddealltwriaeth gyflawn o lesiant cymunedau ac unigolion yn y tymor byr, y tymor canol a'r tymor hir. Un o'n prif ystyriaethau fu i ba raddau y mae dulliau a dadansoddiadau meintiol ac ansoddol yr asesiadau yn rhoi darlun cyffredinol o lesiant amgylcheddol, economaidd, diwylliannol a chymdeithasol, ynghyd â sylwebaeth gychwynnol ar oblygiadau'r 'darlun' hwn i gymunedau h.y. beth sydd o bwys mewn gwirionedd?

Fel y trafodwyd yn gynharach yn y ddogfen hon, gwnaed defnydd da iawn o ddata ansoddol i ddeall yr hyn y mae cymunedau'n ei ddweud wrth y BGC o dan lawer o'r 41 nod. Mae'r naratif a'r arddull ddehongliadol yn amrywio'n fawr rhwng y gwahanol adrannau a nodau. Mae'r modd y trefnwyd y data yn cynnig fframwaith cryf a ddylai alluogi'r BGC i ychwanegu rhagor o wybodaeth leol, data ansoddol a meintiol a diweddarau pob nod dros amser: gan ddefnyddio'r saith nod; gan ddisgrifio pam mae mater yn bwysig; yr hyn a wyddom; yr hyn a ddywedodd y gymuned wrthym. Mewn rhai achosion, caiff y mater ei ddisgrifio gan ddangosydd heb unrhyw gyd-destun, ei gymharu ag ardaloedd eraill heb eglurhad, heb ddim eglurhad o'r 'hyn sy'n bwysig mewn gwirionedd'. Mae'r asesiad wedi'i gyfeirnoddi'n dda ac mae'n dangos sylfaen gref o dystiolaeth i gefnogi'r naratif. Gellid meddwl mwy ynghylch sut mae'r adrannau ar *ddemograffeg a llesiant trwy gydol oes* yn cael eu hymgorffori yn y dogfennau gan nad oes cyd-destun yn perthyn iddynt ar hyn o bryd.

Mewn rhai mannau, mae safon y data a'r dadansoddiad yn uchel iawn ac mewn mannau eraill byddai'r asesiad yn elwa o ragor o waith yn y misoedd nesaf. Mae'r paragraffau canlynol yn cynnig adborth mwy penodol ar bob un o'r saith thema llesiant. Mae'r rhain yn cynnwys rhai awgrymiadau o ran gwella cydbwysedd a chyfathrebu materion allweddol:

Ffyniannus – mae'r adran hon yn darparu naratif a dehongliad rhagorol o'r heriau sy'n wynebu'r economi leol - dylai pob adran geisio cyrraedd y lefel hon o ran naratif. Mae'n arbennig o dda o ran gosod y cyd-destun a'r adrannau ynghylch asedau economaidd, canol trefi a rôl busnesau bychain ac ystadau diwydiannol.

Cydnorthedd – mae'r adran hon yn cynnig sylwebaeth ac eglurhad da o'r heriau sy'n wynebu'r economi leol a'i rôl yn Wrecsam, gan gynnwys Brexit. Fodd bynnag, mae'r cyd-destun yn teimlo'n gyffredinol a disgrifiadol i raddau helaeth ac mae angen ei ddehongli o safbwynt yr ardal e.e. mae angen dehongliad mwy lleol o effeithiau posibl y newid yn yr hinsawdd ar lesiant, gan ddehongli data CCRA ar y risgiau yn ardal Wrecsam.

Cydraddoldeb – mae'r adran hon yn arbennig o gryf o ran disgrifio 'pam mae pethau'n bwysig' gan ddefnyddio amrywiaeth trawiadol o ddeunydd i esbonio hynny. Mae'r adrannau ynghylch tai ac amddifadedd yn rhoi disgrifiad clir iawn o'r data - ond byddent yn elwa o egluro mwy ar arwyddocâd a graddfa amddifadedd amlgenhedlaeth, a'r rhagolygon tai yn Wrecsam yn wyneb y pwysau hyn.

Cydlynus – mae'r adran hon yn eglur iawn ynghylch pwysigrwydd a natur cydlyniant cymunedol gan hoelio'r sylw yn benodol ar Wrecsam, gyda naratif cryf y dylid ei efelychu yn y themâu eraill. Mae'n arbennig o dda ynghylch technoleg newydd a'i heffaith ar lesiant. Mae angen ffocws mwy lleol mewn mannau e.e. beth mae'r ffigurau rhanbarthol yn ei olygu i Wrecsam - faint o broblem yw hon ac ymhle? Pa mor bwysig neu arwyddocaol yw gwirfoddoli neu seiberdroseddu, ymhle mae gwahaniaethau a pham? Beth yw'r effaith ar lesiant?

Diwylliant a'r Gymraeg - mae'r adran hon yn cynnig dadansoddiad da o asedau twristiaeth ac mae'n eglur ynghylch yr angen am ddatblygu dealltwriaeth o lesiant diwylliannol. Ar hyn o bryd, mae'r adran hon yn gul ac yn gyfyngedig o ran sut mae'n diffinio diwylliant a dylid rhoi ystyriaeth bellach i nodau llesiant o dan y thema hon. Gallai data ynghylch llyfrgelloedd, iaith, ethnigrwydd, ysgolion, tirlun, treftadaeth a digwyddiadau ddarparu dealltwriaeth ehangach o asedau diwylliannol ledled Wrecsam. Sut gellir datblygu data i ddeall diwylliant o ran y celfyddydau, iaith, rhwydweithiau cymdeithasol, gweithgareddau diwylliannol, bwyd a diod lleol, sioeau amaethyddol, rhwydweithiau gwybodaeth?

Byd-eang – mae gan yr adran hon ffocws cyfyngedig ar ynni, carbon a gwastraff, sy'n rhoi golwg gul ar Wrecsam sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Mae angen egluro ymhellach beth yw ystyr "*mae hwn yn nod trawsbynciol ac felly cwmpeisir gwybodaeth am y nod hwn gan lawer o'r nodau eraill yn yr asesiad hwn*". A oes enghreifftiau a allai helpu i egluro'r cymal hwn? A yw rhestru'r gwaith a wneir i leihau allyriadau carbon yn gadarnhaol - a yw hynny'n arwyddocaol? A yw hynny'n ddigon? Gellid rhoi ystyriaeth hefyd i 'le' Wrecsam ar y llwyfan ryngwladol - y tu hwnt i'r dangosyddion sydd ar gael. Beth yw rôl Wrecsam mewn busnes rhyngwladol, mudo, lloches gwleidyddol, sut mae gwariant cyhoeddus yn cyfyngu ar effeithiau ecolegol mewn gwledydd eraill? A oes gan Wrecsam gysylltiadau rhyngwladol? Mae gan ddata ansoddol rôl bwysig o dan y thema hon.

Yn y ddwy ddogfen, mae potensial i ddarparu gwell crynodeb o arwyddocâd materion llesiant i Wrecsam. Er enghraifft, gallai'r asesiad roi darlun o raddfa problem colli bioamrywiaeth; y prif gyfleoedd i leihau allyriadau; p'un a fydd mwy o lifogydd yn gwneud rheoli perygl llifogydd yn anodd mewn mannau penodol. Mae rhan o'r adran yn ffocysu ar ddangosyddion i bob golwg a byddai'n elwa o ragor o ddehongli - mae pobl yn anfodlon ar briffyrdd, ond pa mor gydnerth yw'r rhain yn wyneb y newid yn yr hinsawdd? A yw casglu sbwriel yn anghynaliadwy?

6. Heriau allweddol

Mae'n bwysig bod asesiadau llesiant, wrth asesu cyflwr llesiant, yn canolbwyntio ar yr heriau allweddol i lesiant yn y tymor byr, y tymor canol a'r tymor hir, yn ogystal ag ar y nodweddion cadarnhaol ac asedau yn yr ardal. Mae hyn yn cynnwys cyfaddawdu rhwng y gwahanol nodau llesiant, tensiynau, a diffygion yn yr ardal.

Fel y disgrifiwyd yn gynharach yn y ddogfen hon, mae'r Crynodeb a rhannau o'r asesiad yn dangos yn glir beth yw'r heriau allweddol i lesiant ledled Wrecsam. Byddai'n ddefnyddiol efelychu'r ymagwedd hon yn y brif dogfen, lle mae'r materion allweddol ar gyfer Wrecsam yn llai eglur.

Fel y nodwyd yn flaenorol, gellid gwella'r asesiad ar ei hyd â dehongliad pellach o'u harwyddocâd i Wrecsam a'i chymunedau - *sut* bydd y materion hyn yn effeithio ar lesiant. Byddai'n ddefnyddiol cael gwell dealltwriaeth o ba gymunedau a phobl sy'n gydnerth neu'n fregus yn wyneb tueddiadau yn awr ac yn y dyfodol. Bydd hyn yn gymorth i'r BGC ddeall pa agweddau ataliol y gellir eu datblygu ac a ddylai fod yn ganolbwynt i waith ar yr asesiad yn y dyfodol. Mae'n gadarnhaol bod archwiliad mewn mannau o asedau Wrecsam, gan gynnwys asedau economaidd a'r Brifysgol. Fel yr eglurwyd ym mhwynt 5 gallai mwy o ffocws ar asedau cymdeithasol a diwylliannol a'u rôl o ran cefnogi llesiant fod yn faes i'w ystyried ymhellach wrth ddatblygu'r asesiad a'r cynllun llesiant yn Wrecsam.

Mae data cyfoethog iawn yn y ddogfen sy'n darparu dadansoddiad craff a dylai hwn fod yn nodwedd fwy amlwg yn y Crynodeb ac yn yr adran olaf yn y brif ddogfen. Mae'n amlwg y dylai rhai materion craidd a ddisgrifiwyd yn y naratif ddarparu cefnlen fwy pendant i'r holl nodau: 20% o blant yn byw mewn tlodi; adnoddau prin ar gyfer gofal cymdeithasol; diffyg darpariaeth tai; diwygio lles; effeithiau'r hinsawdd; gorddibyniaeth ar gyflogaeth sector cyhoeddus; cyni; colli bioamrywiaeth. Bu ein sgwrs ffôn gyda thîm y BGC yn cyffwrdd â' posibilrwydd y gallai tîm y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) wneud cyfraniad cryfach i'r asesiad. Mae hwn yn faes lle gallai'r wybodaeth a'r data presennol helpu i ddarparu cyd-destun strategol ehangach ar gyfer y 41 nod.

7. Ymgysylltu, ymgyfrannu a chydweithio

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dangos yn glir bod cydweithio ac ymgyfrannu yn ddau o'r pum dull o weithio y mae angen i BGCau eu defnyddio'n gyson yn eu gwaith. O ganlyniad, bu gennym ddiddordeb arbennig yn lefel a dulliau ymgysylltu, ymgyfrannu a chydweithio ar draws y bartneriaeth

wrth gynhyrchu'r asesiad, gan gynnwys ymgysylltu â chymunedau, y cyhoedd, y trydydd sector a sefydliadau sector preifat.

Mae'n amlwg o Adran 1 bod yr ymgynghori ynghylch *Y Wrecsam a Garem* wedi cynnwys dinasyddion, grwpiau cymunedol a phartneriaid er mwyn casglu data meintiol ac ansoddol i lywio'r asesiad. Deellir o'r sgwrs ffôn fod ymdrech fawr wedi'i gwneud i lywio'r asesiad trwy ymgynghori. Fel y nodwyd yn flaenorol, cyflwynir canlyniadau'r ymgynghori yn eglur iawn o dan bob un o'r 41 nod. Dangosir yn glir hefyd ymhle y mae bylchau yn eich gwybodaeth. Fel y nodwyd ym mhwynt 2 (uchod), byddai eglurhad cliriach ynghylch sut y daeth y 44 o ddyheadau a themâu a ddeilliodd o ymgynghoriad *Y Wrecsam a Garem* yn 41 nod llesiant yn fanteisiol.

Roedd yn galonogol clywed am eich ymagwedd at wella eich dealltwriaeth o lesiant trwy ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch cryfderau a gwendidau llesiant yn *Wrecsam*, data ac adroddiadau ymchwil, ac ymgysylltu helaeth gan y staff â'r sectorau cymunedol, gwirfoddol a phreifat yn *Wrecsam*. Braf oedd clywed am gynnwys mewnbwn gan Senedd yr Ifanc, *Wrecsam* yn ddiweddar. Dylid adeiladu ar y cysylltiadau hyn a'u cynnal er mwyn llywio ymhellach ar eich dealltwriaeth o gyflwr llesiant ac ymatebion priodol yn eich Cynllun.

Mae'n dda clywed hefyd i ba raddau y bu'r asesiad hwn yn gatalydd i ddatblygu cydweithio ar draws y BGC. Dylai'r asesiad terfynol egluro manteision y cydweithio hwn, natur y cyfraniad ac ymhle y gellid gwella gwaith ar y cyd. Mae'r cydweithio hwn yn gadarnhaol a dylid adeiladu arno wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant.

8. Integreiddio

Un o nodau allweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw datblygu integreiddio ar bob lefel ar draws y sector cyhoeddus. Credwn ei bod yn bwysig deall y gydberthynas rhwng llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. O ganlyniad, rydym wedi bod yn awyddus i ystyried faint o integreiddio sy'n bodoli rhwng polisi traddodiadol a seilos sefydliadol wrth gynhyrchu'r asesiad. Mae'n bwysig bod y data a restrir yn yr asesiad yn cael ei archwilio ar draws y seilos polisi a sefydliadol traddodiadol er mwyn dehongli beth mae hyn yn ei olygu i lesiant yn yr ardal.

Fel y trafodwyd ym mhwynt 2, mae'r ffordd y mae'r BGC wedi 'mapio' cyfraniad 41 nod *Wrecsam* at y saith nod llesiant cenedlaethol yn sylfaen ardderchog o ran deall sut mae materion yn cyfrannu at nodau

lluosog (neu'n effeithio arnynt). Dylai'r BGC ddefnyddio'r wybodaeth hon i archwilio pa ymyriadau a gweithredu ar y cyd, a pha amcanion yn y cynllun allai gyfrannu at ganlyniadau lluosog.

Mae lle i roi mwy o ystyriaeth i'r data o bob adran (ac ym mhob adran) ochr yn ochr â data'r lleill, ac ystyried y cydberthnasoedd rhwng y data. Mae hwn yn faes y dylech roi ystyriaeth bellach iddo wrth i chi gwblhau eich asesiad ar gyfer ei gyhoeddi ac wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant. Mae lle i integreiddio mwy ac ymchwilio ymhellach i'r berthynas rhwng polisiâu a heriau yn nodau Wrecsam - er enghraifft, cydlyniant cymdeithasol, arwahanrwydd a iechyd meddwl mewn rhannau penodol o Wrecsam, datblygu economaidd a pherygl llifogydd, a'r gydberthynas rhwng trafndiaeth, technoleg newydd a chyfleoedd gwaith. Bydd hyn yn fodd i'r BGC ddeall prif sbardunau'r penderfynyddion llesiant a nodi gwaith ataliol ac ymagweddau integredig ar gyfer gwella llesiant.

Deallwn fod gwaith yn digwydd yn barod a bod cynlluniau i ymchwilio ymhellach i ganfyddiadau'r asesiad gyda phartneriaid. Dylai'r cydberthnasoedd hyn fod yn rhan o'r gwaith hwn. Dylai integreiddio ar draws themâu llesiant fod yn fater pwysig i'w ystyried gan y BGC wrth symud tuag at gynllunio llesiant.

9. Rhagwelediad a thueddiadau'r dyfodol

Un o heriau allweddol y ddeddfwriaeth yw ystyried llesiant yn y tymor byr, y tymor canol *a'r tymor hir* trwy gydol proses yr asesiad a'r Cynllun. Mae gennym ddiddordeb yn lefel y rhagwelediad a'r defnydd a wneir o ddadansoddi tueddiadau'r dyfodol wrth gynhyrchu'r asesiad ynghyd â chydabyddiaeth o lesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Gallai'r asesiad dehongli mwy ar effaith ac arwyddocâd tueddiadau poblogaeth, y newid yn yr hinsawdd, tueddiadau economaidd, gwasanaethau cynefinoedd ac ecosystemau, a thueddiadau iechyd. I bob golwg, cynigir disgrifiad cyffredinol o'r tueddiadau hyn, ar hyn o bryd, gyda dehongliad cyfyngedig yng nghyswllt Wrecsam a'ch cymunedau. Gallai'r adran "*Beth ydym yn ei wybod ac yn gallu ei ragweld ynglŷn â'r dyfodol*" - fod yn fwy eglur ynghylch yr hyn rydych yn ceisio'i gyflawni. Mae'n amlwg bod yr adran hon wedi cynnwys gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru ynghylch tueddiadau'r dyfodol, fodd bynnag prin yw'r cyd-destun y mae'n ei ddarparu ac nid yw'n ychwanegu at y naratif.

Yn gyffredinol, mae angen rhoi mwy o sylw i effaith bosibl tueddiadau tymor hir ar Wrecsam o dan y 41 nod ac mae hyn yn rhywbeth y byddem yn disgwyl ei weld yn gwella wrth i'r asesiad a'r cynllun ddatblygu - er enghraifft, pa mor fregus neu gydnerth yw Wrecsam a'i chymunedau yn wyneb

tueddiadau o'r math hyn ac eraill. Er enghraifft, a yw seilwaith Wrecsam o ran ynni, dŵr, trafndiaeth a seilwaith arall yn medru cefnogi'r economi a darparu'r sylfeini ar gyfer llesiant ar draws y 41 nod.

Gellid mabwysiadu ymagwedd syml er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn. Gallai crynhoi'r heriau yn y tymor byr, y tymor canol a'r tymor hir ar gyfer pob adran, gan nodi ymhle y mae goblygiadau arwyddocaol posibl i'r ardal, a'r bylchau yn eich dealltwriaeth o dueddiadau tymor hir, helpu'r BGC i flaenoriaethu'r heriau hollbwysig sy'n galw am weithredu ar y cyd.

Roedd yn galonogol eich bod wedi rhoi sylw i'r dyfodol yn ymgynghoriad *Y Wrecsam a Garem*, gan ofyn y cwestiwn syml "Beth rydych chi am i Wrecsam fod?" a gellid defnyddio'r ymagwedd syml hon mewn ffrâm amser hwy yn y dyfodol er mwyn ffocysu ar *"Beth rydych chi am i Wrecsam fod ar gyfer eich wyrion a'ch wyresau?"*

Bydd Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu ei hadroddiad ar Dueddiadau'r Dyfodol ym Mai 2017. Y bwriad ar hyn o bryd yw cynnwys 6 thema allweddol sef: Poblogaeth, Economi, Adnoddau Naturiol a'r Newid yn yr Hinsawdd, Iechyd, Defnydd Tir a Seilwaith, a Newid Cymdeithasol. Wrth iddo ddatblygu bydd angen i'ch asesiad roi sylw i'r data a gynhwysir yn hwn, ond dylai anelu at roi pwyslais cliriach ar heriau'r tymor hir i lesiant yn yr asesiad cychwynnol a gyhoeddir yn y misoedd nesaf.

Deallwn o'n sgwrs ffôn gyda thîm y BGC fod cyfle i gynnwys mwy o ddadansoddi ar effaith bosibl tueddiadau'r dyfodol ar lesiant a datblygu dull 'craffu ar y gorwel'. Byddem yn eich annog i fynd ar ôl y mater hwn yn y BGC wrth i chi weithio ar yr asesiad hwn ynghyd â'r cynllun llesiant.

10. Materion trawsffiniol

Mae integreiddio a chydweithio'n ganolog i gyrff cyhoeddus pan fyddant yn cymhwyso egwyddor datblygu cynaliadwy i'w gweithgareddau. Un o'n nodau fu adolygu i ba raddau y mae'r asesiad wedi ystyried materion trawsffiniol ar gyfer gweithredu rhanbarthol a chenedlaethol.

Credwn y byddai dadansoddiad manylach o'r materion allweddol rhanbarthol a thrawsffiniol sy'n effeithio ar Wrecsam yn fanteisiol, i lywio proses y cynllun llesiant. Gallai'r asesiad ddarparu eglurhad cliriach ynghylch rôl Wrecsam a'i pherthynas ag awdurdodau cyfagos yng Nghymru a Lloegr.

Bydd gwedd ranbarthol i gysylltiadau o ran y saith thema llesiant a'r 41 nod sydd gan Wrecsam o ran darparu gwasanaethau a mynediad at wasanaethau, ac mae angen gwneud hynny'n fwy eglur yn yr

asesiad. Bydd hefyd yn bwysig bod y BGCau yn ystyried casgliadau asesuadau llesiant lleol eu cymdogion wrth fynd ati i ddatblygu eu cynllun. Bu'n dda trafod yr agwedd hon ar yr asesiad gyda thîm y BGC fel rhan o'r alwad ffôn.

Gellid bwrw rhagor o oleuni ar y canlynol: rôl Wrecsam yn economi Gogledd Cymru (gan ymgysylltu o bosibl â Bwrdd Economaidd Gogledd Cymru?); arwyddocâd patrymau cymudo i lesiant yn Wrecsam; materion hollbwysig o ran y seilwaith trafniadaeth; a natur y cydberthnasoedd ag awdurdodau yng Nghymru a Lloegr a phartneriaid rhanbarthol eraill o ran y gwasanaethau cymdeithasol, gofal iechyd a rheoli adnoddau naturiol.

Mae hyn yn rhywbeth y byddem yn disgwyl iddo gael ei gynnwys mewn fersiynau o'r asesiad yn y dyfodol er mwyn llywio cynllunio llesiant yn Wrecsam gan ffurfio rhan o'r Crynodeb, o bosibl, fel yr awgrymwyd ym mhwynt 6.

11. Ansawdd data a bylchau data

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw sicrhau y bydd cynllunio llesiant yn broses barhaus lle bydd y sylfaen o dystiolaeth yn gwella'n raddol dros amser i alluogi cyrff cyhoeddus ac eraill i ddeall a chynllunio ar gyfer llesiant yn eu cymunedau. Rydym yn awyddus i ddeall ymagwedd y BGCau at ansawdd data a bylchau data yn ystod yr asesiad a materion data wrth symud ymlaen.

Deallwn fod bylchau yn yr *ymgyngori* wedi cael eu nodi ar gyfer pob un o'r 41 nod, ond mae lle i wella fodd bynnag. Byddai'r crynodeb a'r prif ddogfennau yn elwa o adran sy'n cyfodod y bylchau data o'r gwahanol agweddau ar y gwaith er mwyn deall yr hyn y gallai fod ei angen yn y tymor byr, y tymor canol a'r tymor hir - h.y. beth sydd ar goll sy'n bwysig yn awr ar gyfer llywio datblygiad y Cynllun, beth fyddai'n dda ei ddatblygu yn y tymor canol a beth yw'r materion data yn y tymor hwy. Byddai hyn yn galluogi'r BGC i adeiladu ar waith presennol a chynllunio ar gyfer gwella ansawdd data yn ystod y flwyddyn nesaf a'r tu hwnt, gan helpu partneriaid y BGC i adeiladu ymchwil a rheoli data i mewn i'w cynlluniau busnes a chorfforaethol. Byddai hefyd yn rhoi syniad i Lywodraeth Cymru, y Swyddfa ac Uned Ddata Cymru ynghylch anghenion y BGC.

12. Defnyddio egwyddor datblygu cynaliadwy

Mae'r canllawiau statudol yn gosod cyfrifoldeb ar y BGCau i *fwyafu* eu cyfraniad i'r nodau llesiant trwy ddefnyddio egwyddor datblygu cynaliadwy yn eu dull o weithio. Rydym wedi bod yn awyddus i ddeall

sut mae egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum dull o weithio wedi cael eu defnyddio yn ystod asesiadau llesiant.

Mae'n gadarnhaol gweld y BGC yn ymrwymo yn y Crynodeb i wella ei berfformiad yn y maes hwn. Fel yr awgrymwyd ym mhwynt 4, roedd yn gadarnhaol hefyd bod *Y Wrecsam a Garem* yn troi o gwmpas y pum dull o weithio a'r gwasanaethau cyhoeddus. Dylai'r BGC weithredu ar sail yr wybodaeth hon a datblygu ymagweddau er mwyn cymhwyso'r egwyddor fel dull gweithredu ar gyfer ei waith. Amlygodd ein sgwrs bwysigrwydd 'cadw at' yr egwyddor hon a'r dulliau gweithio yn y *broses* o ddatblygu cynllun llesiant yn Wrecsam.

Mae'n amlwg bod elfennau o'r dull a ddefnyddiwyd gennych eisoes yn dangos sut yr ystyriwyd y pum dull o weithio fel rhan o broses ddatblygu'r asesiad:

Tymor hir – trwy adran y Dyfodol (gweler y sylwadau ym mhwynt 9)

Ymgysylltu - trwy'r gwaith ymgynghori a wnaed ac sydd ar waith ar hyn o bryd (gweler pwynt 8)

Cydweithio - trwy'r gwaith gyda phartneriaid statudol ac eraill (gweler pwynt 7)

Integreiddio - ystyried cyfraniadau lluosog at y nodau llesiant cenedlaethol (gweler pwyntiau 2 a 9)

Er bod sôn am *Ataliaeth* yng nghyd-destun ymyrraeth yn y blynyddoedd cynnar a'r amgylchedd, byddai'r asesiad yn elwa o ddisgrifio sut mae'r agenda ataliol yn hollbwysig i gynllunio llesiant a darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Byddai'r asesiad yn elwa o fod yn fwy eglur ynghylch sut mae'r pum dull o weithio wedi newid ymagwedd y BGC at y gwaith hwn, a sut bydd yr egwyddor yn llywio'r broses cynllunio llesiant.

13. Edrych ymlaen at gynhyrchu'r cynllun

Mater hollbwysig i'n hadolygiad o'r asesiad hwn oedd ystyried a oedd y dogfennau'n eglur ynghylch sut byddai'r gwaith yn cael ei symud yn ei flaen i ddatblygu amcanion lleol a chynhyrchu cynllun.

Mae hwn yn faes lle gellid gwella'r asesiad - mae angen i'r ddwy ddogfen fod yn fwy eglur ynghylch: y camau nesaf; sut gall unigolion a sefydliadau barhau i gymryd rhan; yr amserlen; a'r hyn y mae'r Cynllun yn bwriadu ei wneud. Yn bwysicach, mae angen i'r eglurhad hwn gyfleu sut bydd y deunydd a gasglwyd yn yr asesiad yn cael ei ddefnyddio i lunio amcanion ar gyfer y BGC.

14. Trosolwg

Mae'r dadansoddiad dogfennol uchod wedi nodi nifer o feysydd lle credwn y gallai'r asesiad gael ei gryfhau, yn y tymor byr, cyn iddo gael ei gyhoeddi ac yn y tymor canol wrth i'r dadansoddiad o'r ymateb ddatblygu ac wrth i'r Cynllun gael ei gynhyrchu. Ar ben hynny, trefnwyd galwad ffôn i ni fedru trafod yr asesiad gydag aelodau o dîm y BGC oedd wedi ymwneud â'r broses. Bwriad yr alwad ffôn oedd rhoi cyfle i ni egluro/archwilio materion arbennig a amlygwyd yn ein hadolygiad cychwynnol a galluogi'r BGC i roi sylw i faterion sy'n rhan o gyd-destun ehangach cynhyrchu'r asesiad.

Mae nifer o themâu eang cylchol wedi dod i'r amlwg o'n hadolygiad a'n sgwrs. Mae'n amlwg y bu hon yn dasg anferthol dros gyfnod cymharol fyr o amser, a bod y partneriaid wedi mynd i ymdrech fawr i lunio'r asesiad drafft. Mae'n arbennig o braf gweld ffocws ar y berthynas rhwng 41 nod Wrecsam a'r nodau llesiant cenedlaethol.

Mae hon yn sylfaen gadarn i'r BGC archwilio sut y gall fwyafu ei gyfraniad at lesiant ac integreiddio ar draws llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol.

Credwn fod angen mynd i'r afael â'r materion canlynol er mwyn gwella'r asesiad;

ardal a lle – i ategu'r 41 nod, mae angen meddwl mwy am lesiant mewn rhannau penodol o Wrecsam, er mwyn i'r materion allweddol i lesiant mewn gwahanol leoliadau gael eu hamlygu'n well ynghyd â'r asedau a'r anghydraddoldeb ar draws yr ardal.

arwyddocâd y data - mwy o eglurhad ynghylch arwyddocâd y data a'r heriau allweddol i lesiant ar draws y 41 nod.

heriau - darparu dealltwriaeth a dadansoddiad cliriach o'r heriau (a'r cyfleoedd) sy'n wynebu llesiant yn y tymor byr, y tymor canol a'r tymor hir

cyd-destun rhanbarthol - gwell dealltwriaeth o gydberthynas Wrecsam ag awdurdodau (a BGCau) cyfagos yng Nghymru a Lloegr a'i rôl o ran economi Gogledd Cymru.

tueddiadau'r dyfodol – rhoi mwy o sylw i effaith bosibl tueddiadau tymor hir ar lesiant yn Wrecsam gyfan a'i chymunedau

symud ymlaen – rhoi disgrifiad eglurach o'r modd y bwriedir defnyddio data'r asesiad, sut bydd bylchau data'n cael eu rheoli a sut bydd cynllunio llesiant yn symud yn ei flaen

Cydnabyddir y gellir mynd i'r afael â rhai o'r rhain yng ngweithgareddau arfaethedig y BGC rhwng nawr ac adeg cyhoeddi'r asesiad yn derfynol.

Gobeithiwn y bydd y materion a godwyd uchod yn llywio'r cydweithio hwn fel bod yr elfennau hyn yn cael eu hadlewyrchu'n gryfach gan y BGC yn y fersiwn derfynol o Asesiad Llesiant Wrecsam a thrwy gydol y broses cynllunio llesiant.